


Buddsoddi yn ein hyfory...

Uchafbwyntiau Cymru 2012




...gweithio'n ddiwyd heddiw

Mae dyletswyddau statudol Ystad y Goron yn ein harwain i reoli ein hasedau mewn ffordd hirdymor. Fodd bynnag, er ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau a wnaiff ddwyn ffrwyth yn y blynyddoedd i ddod, rtydym hefyd yn gweithio'n ddiwyd heddiw i sicrhau buddiannau amlwg i gymunedau lleol yng Nghymru, yn ogystal â'r Trysorlys. O hwyluso'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr i fuddsoddi mewn parc manwerthu mawr yn ne Cymru, llwyddwyd i gyflawni nifer o amcanion pwysig yn 2011/12.


Ein perfformiad

	Ystad y Goron Cymru	Ystad y Goron Cymru	Cyfanswm Ystad y Goron	Cyfanswm Ystad y Goron	Cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn gynt	Canran o'r cyfanswm
	12 mis i 31 Mawrth 2012	12 mis i 31 Mawrth 2011	12 mis i 31 Mawrth 2012	12 mis i 31 Mawrth 2011		
	£m	£m	£m	£m	%	%
Refeniw	6.8	2.8	314.2	306.8	243%	2.2%
Gwarged gros	6.5	2.5	272.4	264.3	260%	2.4%
Gwerth eiddo	118.2	31.3	7,219.9	6,703.3	378%	1.6%
Buddsoddiadau cyfalaf	84.3	0.4	409.9	571.0		
Derbyniadau cyfalaf	–	0.1	639.7	406.1		

Refeniw yn ôl gweithgaredd 2012



Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd 2012



Deall Ystad y Goron

Rôl ein sefydliad, a grëwyd gan Ddeddf Seneddol, yw cynnal a gwella gwerth ystadau etifeddol y Goron, ar ran y genedl.

Ein gweledigaeth yw sicrhau mai ni yw'r cwmni eiddo uchaf ei fri yn y DU o ganlyniad i'r ffordd fasnachol a chynaliadwy rydym yn rheoli'r portffolio amrywiol o asedau.

Caiff yr elw a wneir yn sgil ein gweithgareddau ei dalu i'r Trysorlys er budd y genedl. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn wedi cyfateb i bron £2 biliwn ledled y DU, tra bod gwerth cyfalaf y portffolio wedi cynyddu dros £3 biliwn yn ystod yr un cyfnod.

Mae ein portffolio yng Nghymru yn un eang ac, ar ein hystad wledig, mae'n cynnwys ardaloedd mawr o dir comin, daliadau amaethyddol ac amrywiaeth o fuddiannau mwynol. Mae ein hystad forol yn cwmpasu tua hanner y blaendraeth a gwely'r môr hyd at 12 milltir forwrol, lle rydym yn chwarae rôl

allweddol i alluogi datblygwyr i wireddu potensial ynni adnewyddadwy, yn enwedig drwy ffermydd gwynt ar y môr. Gwelwyd portffolio rhanbarthol ein hystad drefol yn gwneud ei fuddsoddiad cyntaf yn y wlad yn ystod 2011/12, pan brynodd parc siopa Morfa yn Abertawe.

Wrth reoli ein hystadau yng Nghymru y nod yw gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth a chymunedau lleol er budd pawb. Rydym wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cyngorau lleol, cymunedau a'n cwsmeriaid ein hunain.

Er mai gwneud elw yw ein hamcan craidd, cyfunwn y rheidrwydd masnachol hwnnw ag ymrwymiad yr un mor gadarn i'n gwerthoedd sydd a wnelo ag uniondeb a stiwardiaeth. Rheolwn yr asedau sydd yn ein gofal er budd hirdymor a chynaliadwy ein tenantiaid a chwsmeriaid eraill, eu busnesau, y cymunedau a gynrychiolir ganddynt, a'r amgylchedd.

Yr ystad a'i huchafbwyntiau ariannol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012




Yr ystad forol yng Nghymru

Yng Nghymru mae ein buddiannau economaidd yn cynnwys porthladdoedd, marinas, ffermydd gwynt a safleoedd echdynnu agregau morol.

Ni yw ceidwaid gwely'r môr hyd at y terfyn tiriogaethol o 12 milltir forol, gan gynnwys yr hawliau i chwilio am adnoddau naturiol sgafell gyfandirol y DU (heb gynnwys olew, nwy a glo) a'u defnyddio. Rydym yn gyfrifol am 65 y cant o flaendraeth Cymru.

Drwy ein rhaglen stiwardiaeth forol, cefnogwn amrywiaeth o brosiectau ymarferol sy'n cyfrannu at stiwardiaeth dda ar hyd arfordir y DU.



Yr ystad wledig yng Nghymru

Mae gennym ystadau gwledig yn Aberystwyth, Pumlumon a Thyndyrn sy'n creu cyfanswm o 1,326 hectar (3,277 erw) o dir amaethyddol a 26,885 hectar (66,435 erw) o dir comin yng Nghymru.

Mae gennym hefyd 99,000 hectar (245,000 erw) o berchenogaeth mwynau yn unig yng Nghymru. Ceir 10 o safleoedd yng Nghymru ar hyn o bryd mewn chwe awdurdod lleol, sydd wedi'u prydlesu at ddibenion echdynnu mwynau. Mae Ystad y Goron yn rhoi prydlesau i weithredwyr masnachol sy'n caniatáu iddynt chwilio am aur ac arian a'u mwyngloddio ledled y DU.



Yr ystad drefol yng Nghymru

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd y broses o brynu parc siopa Morfa yn Abertawe am £80 miliwn. Dyma'r buddsoddiad cyntaf mewn ased yng Nghymru gan bortffolio rhanbarthol ein hystad drefol.

Refeniw yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011
	£m	£m
Ceblau/piblinellau	0.3	0.2
Arfordirol	1.4	1.3
Carthu	0.8	0.4
Ynni adnewyddadwy	0.4	0.4
Morol	2.9	2.3
Amaethyddol	0.1	0.1
Mwynau	0.3	0.4
Gwledig	0.4	0.5
Manwerthu Trefol	3.5	–
Cyfanswm	6.8	2.8

Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011
	£m	£m
Ceblau/piblinellau	3.5	2.1
Arfordirol	17.1	16.4
Carthu	4.1	0.9
Ynni adnewyddadwy	5.8	4.5
Morol	30.5	23.9
Amaethyddol	4.3	4.0
Mwynau	3.1	3.1
Coedwigaeth	0.4	0.3
Gwledig	7.8	7.4
Manwerthu Trefol	79.9	–
Cyfanswm	118.2	31.3

Alison Nimmo CBE

Llofnodwyd gan yr is-gomisinydd a'r swyddog cyfrifyddu ar ran y Bwrdd
15 Mehefin 2012

Yr ystad forol yng Nghymru

Gweithiwn gyda phartneriaid, pobl leol a chyrrff eraill i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnodd ynni ar y môr sydd o'r radd flaenaf.

Mae gweithgareddau'r ystad forol yn dwyn buddsoddiadau mewnol, busnes a swyddi newydd sylweddol i'r DU. Fel stiwardiaid y gwely môr tiriogaethol ac ar ôl cyflwyno'r ddwy rownd gyntaf o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr o amgylch y DU, mae Ystad y Goron yn chwarae rôl weithredol wrth helpu Cymru i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ar y môr.

Sbarduno'r sector adnewyddadwy

Eleni, dechreuwyd gweithio ar brosiect ar y môr Gwynt y Môr oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau, hon fydd fferm wynt fwyaf Cymru, a fydd yn cynhyrchu digon o ynni ar gyfer 400,000 o gartrefi.

Gwelwyd prif brosiectau Rownd 3 yn gwneud cryn gynnydd yn ystod y flwyddyn hefyd. Mae dau o'r naw parth yn rhaglen Rownd 3 mewn dyfroedd nid nepell o Gymru, un ym Môr Iwerddon a'r llall ym Môr Hafren. Gwnaeth y prosiectau pwysig hyn gryn gynnydd yn ystod y flwyddyn drwy gwblhau nifer o arolygon ac ymgynghoriadau ar y môr.

Rydym wedi cyhoeddi cytundeb ar gyfer prydles sydd ynghlwm wrth brosiect ynni ffrwd llanw yn nyfroedd Cymru. Mae cwmni Tidal Energy Limited wedi cael yr hawl i ddatblygu safle oddi ar Benmaen Dewi yn Sir Benfro. Dyma'r trydydd cytundeb o'r fath ar gyfer prosiectau llanw sydd bellach ar waith yn nyfroedd Cymru. Mae cytundeb prydles yn galluogi'r cwmnïau i ddatblygu ymhellach, gan ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a

pharatoi ceisiadau am ganiatâd gan Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru. Os rhoddir caniatâd, gellir troi'r cytundebau'n brydlesau llawn ar gyfer gwaith adeiladu a gweithredu.

Megis dechrau, i raddau helaeth, y mae ynni ar y môr o ran ei ddatblygiad, sef y rheswm dros drefnu cyfres o ddigwyddiadau cadwyn gyflenwi yn y DU am y drydedd flwyddyn yn olynol. Cafodd un digwyddiad o'r fath ei drefnu yn Llandudno ym mis Mai 2012 a wnaeth ddwyn ynghyd brif ffigyrau'r diwydiant i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi arbenigol, cynnal hyder yn y farchnad a hybu'r ymgyrch i gynnig mwy o gyfleoedd o ran gweithgynhyrchu adnewyddadwy ar y môr a gwasanaethau cymorth i ffermydd gwynt yn y DU. Cynhaliwyd y digwyddiad drwy bartneriaeth rhwng Ystad y Goron, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Buddsoddi mewn cymunedau a busnesau

Mae ein daliadau arfordirol yn cynnwys ardaloedd hardd iawn sy'n bwysig yn genedlaethol, a chymerwn ein cyfrifoldebau amdanynt ac am bobl Cymru o ddirif. Yr her yw cydbwysu blaenoriaethau amgylcheddol â chyfleoedd datblygu cynaliadwy masnachol. Gwnawn hyn drwy weithio'n agos â'r holl ddiwydiannau morol sy'n bodoli.

Yn 2011/12, er enghraifft, ac ar y cyd â Quay Marinas, gwnaethom fuddsoddi yn 'Little Orme', sef cwch carthu o'r radd flaenaf, er mwyn diwallu anghenion marinâu Conwy a Deganwy. Mae'r marinâu hyn yn cyfrannu tua £6 miliwn i'r economi leol ac yn cefnogi tua 100 o swyddi.



Uchod Bydd 'Little Orme', sef cwch carthu o'r radd flaenaf, yn diwallu anghenion marinâu Conwy a Deganwy. Mae'r marinâu hyn yn cyfrannu tua £6 miliwn i'r economi leol ac yn cefnogi tua 100 o swyddi.

Rheoli hawliau mwynau ar y môr

Mae ein hystad forol hefyd yn cynnwys yr hawliau i fwynau sydd ar neu islaw gwely'r môr, o'r arfordir hyd at ymyl sgafell gyfandirol y DU, ond heb gynnwys olew a nwy. Fel tirlfeddiannwr, dosbarthwn drwyddedau i echdynnu agregau unwaith y bydd cwmni wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio'r mater.

Mae cryn dipyn o ddiwydiant adeiladu de Cymru yn dibynnu ar gyflenwad rheolaidd a dibynadwy o agregau a gaiff eu carthu o Fôr Hafren. Adolygwn y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y diwydiant carthu yn dilyn arfer gorau ac felly yn parhau i fod yn ddiwydiant cynaliadwy.

Yr ystad wledig yng Nghymru

Ein nod yw sicrhau perfformiad cynaliadwy, hirdymor ar ein hystad wledig drwy systemau rheoli gweithredol.

Mae stiwardiaeth yn rhan annatod o Ystad y Goron, felly caiff ein hamcanion masnachol eu cydbwysu â chydabyddiaeth glir o'n cyfrifoldebau ehangach. Byddwn bob amser yn ceisio gwneud y peth iawn er lles hirdymor asedau sy'n rhan o dreftadaeth a gwedd y genedl.

Tir comin Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'n hystad yng Nghymru yn dir comin a ddefnyddir yn bennaf fel tir pori i ddefaid. Cominwyr, sy'n gweithredu drwy gymdeithasau cominwyr, sydd fel arfer yn gyfrifol am reoli'r tir hwn o ddydd i ddydd. Ein nod yw gweithio gyda'n tenantiaid i'w helpu i sicrhau llwyddiant parhaus eu busnesau. Darparwn gyfalaf ar gyfer prosiectau cydfuddsoddi hyfyr a hwyluswn y gwaith o hyrwyddo a marchnata cynhyrchion a gwasanaethau o'r radd flaenaf.

Cynhelir arolygon rheolaidd o dir comin er mwyn sicrhau 'presenoldeb' lleol a nodi unrhyw faterion sydd angen sylw. Yn 2011/12, canolbwyntiwyd ar Feirionnydd ac mae ein hasiantau rheoli wrthi'n ymdrin â materion sy'n cynnwys tipio anghyfreithlon, codi ffensys heb drwydded a pherchenogaeth.

Prosiectau ynni adnewyddadwy

Gan ein bod yn ymwybodol o'r teimladau cryfion, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, sy'n gysylltiedig â ffermydd gwynt, gweithiwn yn agos gyda datblygwyr, cymunedau a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein cynigion yn diwallu anghenion lleol a chenedlaethol. Yn arbennig, rydym yn ymrwymedig i sicrhau, lle bynnag y bo modd, mai yng Nghymru y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru. I'r perwyl hwn, rydym wedi cyfyngu ein cynigion i brosiectau 50MW ac is, sy'n sicrhau mai yng Nghymru y caiff materion cynllunio eu datrys.

Rydym wedi penderfynu peidio ag achub ar y cyfleoedd micro gynhyrchu ym Mhumlumon, a amlinellwyd yn ein hadroddiad y llynedd, am fod pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, gwnaed cryn gynnydd ar dair fferm wynt sydd bellach yn destun proses gynllunio.

Yn Llanllwni yn Sir Gâr, cyflwynwyd cais cynllunio ym mis Hydref i godi 15 o dyrbinau. Rydym wedi cytuno ar gynlluniau rheoli cynefinoedd gyda'r datblygwr RES a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ac rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o arddangosfeydd sydd wedi rhoi gwybodaeth i bobl leol. Os caiff ei chymeradwyo, disgwylir i'r fferm wynt ddechrau gweithredu tua diwedd 2014.

Rydym hefyd wedi cytuno ar opsiwn a phrydles gydag Ynni Gwynt Cymru ar gyfer fferm wynt yn Llys Dymper yng Nghonwy. Lleihawyd nifer y tyrbinau o 14 i 11, oherwydd pryderon lleol. Mae cais cynllunio wedi cael ei gofrestru a gallai'r fferm wynt gael ei chomisiynu yng nghanol 2014.

Mae'r datblygwr RWE wedi cytuno ar opsiwn a phrydles ar gyfer fferm wynt yng Nghilfaesty ym Mhowys. Fel Llys Dymper lleihawyd nifer y tyrbinau, o chwech i bedwar y tro hwn, oherwydd pryderon amgylcheddol. Mae RWE wedi ysgrifennu at gominwyr a Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno cais cynllunio a ddisgwylir yn ddiweddarach yn 2012.

Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, cawsom adroddiad gan ein hasiantau ar brosiectau dŵr a gwynt bach ar yr ystad wledig yng Nghymru. Mae'r adroddiad wrthi'n cael ei werthuso, er, yn ôl yr arwyddion cynnar, gallem o bosibl ddatblygu 10–15 o gynlluniau dŵr dros y ddwy flynedd nesaf.

Daliadau amaethyddol

Ymhlith ein buddiannau amgylcheddol yng Nghymru mae Pumlumon, sy'n cynnwys dau ddaliad amaethyddol, a Thyndyrn, sydd nid yn unig yn cynnwys menter ffermio ond hefyd gryn fuddiannau mwynau ar lan orllewinol Afon Gwy. Mae Abaty Tyndyrn hefyd o

dan berchenogaeth Ystad y Goron er, er mwyn diogelu'r heneb hon am genedlaethau i ddod, rydym wedi cytuno i roi'r Abaty yng ngofal CADW, sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, o dan gytundeb rheoli hirdymor. Mae Abaty Tyndyrn yn borth hanesyddol i ymwelwyr sy'n dod i Gymru a chaiff lawer o ymwelwyr bob blwyddyn.

Mwynau, Mwyngloddiau Brenhinol a mwyngloddiau segur

Ceir 10 safle mwyngloddio yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o ran maint a chynhyrchir agregau o galchfaen a chreigiau igneaidd yn ogystal â gweithrediadau llechi. Mae'r dirwasgiad economaidd ehangach wedi cael effaith ar y busnesau hyn ac mae'n dra annhebygol y bydd y diwydiant adeiladu yn gweld tro mawr ar fyd.

Gelwir dyddodion aur ac arian yn Fwyngloddiau Brenhinol ac maent yn eiddo i Ystad y Goron lle bynnag y'u ceir yn y rhan fwyaf o'r DU. Cafwyd gweithgarwch cynhyrchu masnachol yng Nghymru yn y gorffennol ac mae un cytundeb i chwilio am aur ar waith yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Yn sgil ein perchenogaeth hanesyddol o fwynau, mae gennym rai cyfrifoldebau am fwyngloddiau segur penodol ac yn ystod 2011/12, fel rhan o'n rhaglen diogelwch flynyddol barhaus, buddsoddwyd £110,000 arall er mwyn gofalu am y safleoedd hyn.

Ar safle mwyngloddio Cwmystwyth yng Ngheredigion, er enghraifft, cwblhawyd prosiect pwysig gennym ym mis Awst. Yr her oedd diogelu seilwaith adeiladau tra'n cadw eu nodweddion pensaernïol. Gweithiwyd gydag ystod eang o gyrff natur a chadwraeth, gan gynnwys CADW, CCGC a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bu'n rhaid i ni hefyd weithio o fewn cyfnod byr iawn yn yr haf er mwyn osgoi amharu ar rywogaethau a ddiogelir.

Yr ystad drefol yng Nghymru



Uchod Parc manwerthu Morfa, Abertawe. Buddsoddwyd bron £200 miliwn gennym mewn parciau manwerthu yn ystod y flwyddyn, gan olygu bod gwerth ein portffolio rhanbarthol wedi mynd dros £1 biliwn am y tro cyntaf.

Gwelwyd portffolio rhanbarthol ein hystad drefol yn cyflawni ei gaffaeliad cyntaf yng Nghymru eleni.

Mae eiddo manwerthu yn chwarae rhan fwyfwy pwysig ym mhorthffolio rhanbarthol ein hystad drefol ac, yn 2011/12, roedd yn bleser gennym gwblhau'r broses o brynu parc siopa Morfa yn Abertawe, oddi wrth Gronfa Junction, am £80 miliwn ar elw cychwynnol net o 5.8 y cant.

Yn ogystal â chynrychioli caffaeliad cyntaf yr ystad drefol yng Nghymru, mae hefyd yn gwthio elfen fanwerthu'r portffolio dros £1 biliwn am y tro cyntaf. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi buddsoddi £360 miliwn yn y sector manwerthu a bellach ni yw un o berchenogion mwyaf eiddo manwerthu yn y DU gyda thros 3.8 miliwn o droedfeddi sgwâr ledled y DU. Ymhlith y safleoedd manwerthu eraill a brynwyd yn ddiweddar mae Canolfan Siopa Westgate yn Rhydychen a pharciau manwerthu yn Nottingham, Aintree, Hemel Hempstead a Portsmouth.

Parc siopa Morfa

Wedi'i leoli filltir a hanner o ganol dinas Abertawe, mae Morfa yn cynnwys 340,000 o droedfeddi sgwâr o safle manwerthu heb ei ail. Ymhlith y deiliaid mae WM Morrison, TK Maxx, New Look, Next, B&Q a DSG Currys Megastore. Mae'r parc ond pum milltir o'r M4 a chaiff fudd o rwydwaith trefnidiaeth ardderchog.

Er bod holl unedau Morfa wedi'u prydlesu pan gafodd y safle ei brynu, aeth y manwerthwr Peacocks i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Ionawr 2012. Gan fod siopwyr lleol a'r gymuned fanwerthu yn awyddus i weld y siop yn parhau i fasnachu, gweithiwyd yn galed gyda'r tîm rheoli i sicrhau bod Bon Marché, un o fformatau Peacocks, yn aros ar agor ar y safle.

Ein strategaeth ar gyfer Morfa yw adeiladu ar ei statws presennol drwy wella ansawdd y parc manwerthu ei hun yn ogystal â phrofiad y cwsmer. Edrychwn ymlaen at nodi ein cynnydd yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Gweithio gyda'r Llywodraeth a chymunedau

Rydym yn awyddus i weithio'n unol â'r Llywodraeth a chwarae rhan lawn yn y gwaith o helpu busnesau a phobl Cymru i gael budd o'r asedau a reolir gennym.

Ym mis Tachwedd, llofnodwyd Cyd-femorandwm Dealltwriaeth gyda Llywodraeth Cymru, yn nodi cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd ein priod sefydliadau. Dyma'r cyntaf o'i fath ag unrhyw un o lywodraethau datganoledig y DU ac mae'n arwydd ffurfiol o nod y ddwy ochr i gydweithio'n agosach er mwyn ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad cryf i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn ffyrdd arallgyfeiriedig, ac mae hwn yn faes lle y gallwn chwarae rôl allweddol i'w helpu i gyflawni'r nod.

Yn ogystal â'r Cyd-femorandwm Dealltwriaeth, ceisiwn weithio'n unol â'r Llywodraeth bob amser a pharchu natur ddynamig datganoli. Er enghraifft, eisteddwn ar sawl pwyllgor cynghori, gan gynnwys grwpiau technegol a'r rhai sy'n ymwneud â chadwraeth forol, lle y gall ein profiad a'n cyngor helpu i weithredu mentrau polisi.

Gweithio mewn partneriaeth â phobl leol

Eleni, parhawyd i gefnogi nifer fawr o fentrau sy'n anelu at greu amgylchedd lle y gall busnesau a chymunedau lleol ffynnu.

Marina a phorthladd Abergwaun

Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, da o beth oedd gweld caniatâd cynllunio amlinellol yn cael ei roi ar gyfer gwaith datblygu pwysig ar farina a phorthladd Abergwaun yn Sir Benfro a ddylai esgor ar fuddiannau economaidd hirdymor mawr i'r ardal.

Cyflwynodd Conygar Investment Company PLC gais cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys marina masnachol, fflatiau preswyl ac unedau manwerthu/masnachol ategol yn gysylltiedig â'r diwydiant morol. Mae hefyd yn ymgorffori gwaith adfer tir ar gyfer llwyfan datblygu newydd a fydd yn rhoi'r cyfle i Stena Line ehangu ei weithrediadau porthladd a fferi.

Angorfeydd Aberdaugleddau

Ymhellach i'r de, rydym wrthi'n llunio cytundebau terfynol â sawl grŵp angori lleol yn Aberdaugleddau er mwyn rheoli miloedd o angorfeydd hamdden yn gymunedol. Drwy ddilyn y trywydd newydd hwn, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â Chymdeithas Defnyddwyr Harbwr Aberdaugleddau a grwpiau lleol eraill, gwelir mwy o gysondeb o ran rheoli angorfeydd a chaiff y gymuned leol fwy o ymreolaeth.

Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr

Wedi'i enwi ar ôl y ffigyr enwog hwnnw o ddechrau'r bymthegfed ganrif, Owain Glyndŵr, mae Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr yn croesi tir comin Ystad y Goron am ran o'i daith 135 milltir. Yn ystod 2011/12, cydweithiwyd â Chyngor Sir Powys i ddynodi Llwybr a oedd wedi'i gynllunio i helpu i ddiogelu a diffinio'r llwybr cenedlaethol yn y dyfodol.

Cronfa stiwardiaeth forol

Caiiff ein cronfa stiwardiaeth forol ei gwerthfawrogi'n fawr am gefnogi mentrau cymunedol, annog arferion amgylcheddol da a hyrwyddo'r gwaith hirdymor cynaliadwy o reoli'r ystad forol. Datblygwyd ein dull o weithredu yn 2011/12 er mwyn sicrhau bod prosiectau nid yn unig yn helpu i gyflawni amcanion busnes yr ystad

ond eu bod hefyd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid a'n tenantiaid.

Ymhlith sawl prosiect a ariannwyd yn ystod y flwyddyn rhoddwyd £15,000 i Ynni Morol Sir Benfro ac ymrwymwyd £15,000 arall y flwyddyn dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd yr arian yn mynd tuag at sefydlu fforwm i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ynni tonnau a llanw yn Sir Benfro. Bydd y fforwm yn helpu datblygwyr a chyrrff statudol i gydweithio er mwyn deall y rhwystrau posibl i gael caniatâd a'u goresgyn. Mae'r cynllun gwaith presennol yn cynnwys map ffordd cydsynio, sy'n darparu cyfres o seminarau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar faterion cadwyn gyflenwi, yn ogystal â helpu i sicrhau cefnogaeth wleidyddol i ynni tonnau a llanw. Yn ogystal â darparu arian, rydym yn cyfrannu at y gweithgor ac yn cynnig arbenigedd ein tîm polisi a chynllunio morol.

Gwnaethom hefyd roi dros £8,500 i ariannu gwaith adnewyddu a gwella ar y lanfa yng Nghlwb Cychod Tywi, sy'n golygu ein bod wedi rhoi mwy na £15,000 ers 2010. Cafodd y lanfa bresennol ei hadeiladu yn 1983, gan ddefnyddio hen bolion telegraff a phren o gapel a gafodd ei ddymchwel, ac mae angen ei hadnewyddu er mwyn diwallu anghenion y Clwb yn y dyfodol a chynnig mynediad mwy diogel i'r amgylchedd morol.

Mae'r gronfa stiwardiaeth forol yn cefnogi ystod eang o brosiectau, gan gynnwys mentrau cymunedol lleol cymharol fach fel Prosiect Dileu Jac y Neidiwr a drefnwyd gan Gymdeithas Gymunedol Llandudoch, ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Rhoddwyd £500 i gael gwared ar y chwyn ymwithiol yma o dir yn y Parc Cenedlaethol. Mae Jac y Neidiwr, nad yw'n frodorol, yn doreithiog, yn lledu'n gyflym ac yn mygu amrywiaeth o lystyfiant brodorol.

Adroddiad y Rheolwr ac archwilydd cyffredinol i gomisiynwyr ystad y goron

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ystad y Goron ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, y mae'r wybodaeth ariannol ar dudalennau 1 a 2 yn deillio ohonynt, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol. Yn fy adroddiad dyddiedig [**], rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol y deilliodd y wybodaeth ariannol ohonynt.

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth ariannol gysylltiedig wedi'i dwyn ynghyd yn gywir, ym mhob ffordd berthnasol, o'r cofnodion cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol a archwiliwyd y gwnaethant ddeillio ohonynt.

I feithrin gwell dealltwriaeth o sefyllfa ariannol y cwmni, canlyniadau ei weithrediadau ar gyfer y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylai'r wybodaeth ariannol gael ei darllen ar y cyd â'r datganiadau ariannol y deilliodd y wybodaeth ariannol ohonynt a'n hadroddiad archwilio arnynt.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

*National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP*

18 Mehefin 2012